

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Heb eu Cadarnhau

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Bwrdd Iechyd  
a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2021 am 12.45pm drwy Zoom**

**Yn bresennol**

|                       |                                                          |
|-----------------------|----------------------------------------------------------|
| Emma Woollett         | Cadeirydd                                                |
| Mark Hackett          | Prif Weithredwr                                          |
| Steve Spill           | Is-gadeirydd                                             |
| Christine Morrell     | Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Therapiau a Gwyddor Iechyd |
| Darren Griffiths      | Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro                              |
| Maggie Berry          | Aelod Annibynnol                                         |
| Mark Child            | Aelod Annibynnol                                         |
| Martyn Waygood        | Aelod Annibynnol                                         |
| Richard Evans         | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol                         |
| Siân Harrop-Griffiths | Cyfarwyddwr Strategaeth                                  |
| Tom Crick             | Aelod Annibynnol                                         |
| Nuria Zolle           | Aelod Annibynnol                                         |

**Hefyd yn bresennol:**

|                      |                                                           |
|----------------------|-----------------------------------------------------------|
| Joanne Abbott-Davies | Pennaeth Cynorthwyol Strategaeth                          |
| Matt John            | Cyfarwyddwr Digidol                                       |
| Mwoyo Makuto         | Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe                        |
| Nick Samuels         | Cyfarwyddwr Cyfathrebu Dros Dro                           |
| Pam Wenger           | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol                    |
| Paul Stuart Davies   | Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf |
| Liz Stauber          | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol                       |

| Rhif Cofnod   |                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Cam gweithredu |
|---------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|
| <b>158/21</b> | <b>CROESO A CHYFLWYNIADAU</b>                                                                                                                                                                                                                                                          |                |
|               | Croesawodd Emma Woollett bawb i gyfarfod arbennig y Bwrdd.<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Christine Williams, y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf, Keith Lloyd, Aelod Annibynnol, Jackie Davies, Aelod Annibynnol a Reena Owen, Aelod Annibynnol. |                |
| <b>159/21</b> | <b>DATGAN BUDDIANNAU</b>                                                                                                                                                                                                                                                               |                |
|               | Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.                                                                                                                                                                                                                                                       |                |

|               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |  |
|---------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
| <b>160/21</b> | <b>MATERION YN CODI</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |  |
|               | Ni chodwyd unrhyw faterion nad oeddent ar yr agenda.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |  |
| <b>161/21</b> | <b>TREFNIADAU DYLUNIO, CAFFAEL, ADEILADU A CHOMISIYNU I SEFYDLU GOFAL ARGYFWNG DYDD AC UNED ASESU MEDDYGOL ACÍWT YN YSBYTY TREFORYS</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |  |
|               | <p><b>Derbyniwyd</b> adroddiad ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd, yn nodi'r trefniadau dylunio, caffael, adeiladu a chomisiynu i sefydlu gofal brys dydd ac uned asesu meddygol aciwt yn Ysbyty Treforys.</p> <p>Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Darren Griffiths sylw at y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddai'r newid arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar brofiad y cleifion, llif y cleifion ac ar foderneiddio'r cyfleusterau;</li> <li>- Roedd cymhlethdod annisgwyl o ran y gwaith cyfalaf yr oedd angen ei wneud wedi arwain at oedi yn yr amserlenni, ac felly disgwylir ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2022 yn lle Tachwedd 2021;</li> <li>- Gwnaed diwygiadau i'r cynllun cyfalaf dewisol er mwyn rhyddhau'r £3m yr oedd ei angen, gan barhau ar yr un pryd â chynllun a oedd yn mantoli'r gyllideb, ond byddai cais hefyd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am yr arian;</li> <li>- Gan fod cost y cynllun yn fwy na £1m, byddai angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru;</li> <li>- Byddai camau lliniaru yn eu lle wrth i'r gwaith gael ei wneud i wella perfformiad adrannau brys i 80% yn chwarter dau, 84% yn chwarter tri ac 85% yn chwarter pedwar.</li> </ul> <p>Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:</p> <p>Gofynnodd Steve Spill am eglurder a fyddai'r cais i Lywodraeth Cymru am y £3m llawn neu ddim ond am £880k i dalu am y cynlluniau a ohiriwyd er mwyn rhyddhau'r arian. Cadarnhaodd Darren Griffiths y byddai'r cais am y swm llawn. Pe bai'r cais hwn yn cael ei dderbyn, gellid adfer y cynllun cyfalaf gwreiddiol. Ychwanegodd ei bod yn ansicr a fyddai'r cais yn llwyddiannus gan fod llawer o alw am y cronfeydd cyfalaf eleni a bod sefydliadau eraill yn cyflwyno ceisiadau am eu cynlluniau eu hunain.</p> <p>Gofynnodd Nuria Zolle am sicrwydd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r risg</p> |  |

|              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |    |
|--------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
|              | <p>o gael prydlesi tymor hir fel ffordd o liniaru'r sefyllfa gyfalaf heriol. Ychwanegodd y gallai cyfanswm cost y prydlesi hyn fod yn llawer uwch na dulliau eraill. Cadarnhaodd Darren Griffiths fod yr ystyriaeth hon yn rhan fawr o'r trafodaethau presennol.</p> <p>Holodd Nuria Zolle am yr effeithiau posibl pe bai trydedd don o Covid-19 a holodd a fyddai capasiti ar gael ar gyfer ymchwydd pe bai angen. Ymatebodd Rab McEwan bod disgwyl i'r drydedd don olygu tri/pedwar mis o dderbyniadau lefel isel i'r ysbytai a bod y niferoedd ar hyn o bryd yn is na'r disgwyl. Yn seiliedig ar hyn, roedd y nifer sylfaenol o welyau aciwt cyffredinol yn ddigonol. Byddai creu'r cyfleusterau dydd hyn yn darparu'r capasiti i drin rhai o'r cleifion â Covid-19 yn gyflym, naill ai heb fod angen eu derbyn i'r ysbyty neu drwy eu bod yn aros yn yr ysbyty am gyfnod byrrach. Byddai hyn yn helpu'r gwasanaethau llawfeddygol dewisol a hanfodol i barhau.</p> <p>Gofynnodd Nuria Zolle am sicrwydd bod digon o seilwaith yn ei le i barhau ag apwyntiadau rhithwir ar gyfer cleifion allanol. Cadarnhaodd Rab McEwan fod digon o seilwaith yn ei le, gan ychwanegu bod nifer o opsiynau eraill ar gyfer cynnal apwyntiadau wyneb yn wyneb hefyd yn cael eu harchwilio y tu hwnt i safleoedd yr ysbytai.</p> <p>Nododd Mark Child fod y cynllun wedi ei ddiwygio ers cytuno arno'n wreiddiol fel rhan o'r cynllun blynyddol, a gofynnodd a oedd hyn yn rhoi'r bwrdd iechyd mewn perygl o golli hyder Llywodraeth Cymru. Ymatebodd Mark Hackett y byddai'r bwrdd iechyd yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y cynigion ar ôl cael cymeradwyaeth y Bwrdd ac y byddai'n bwysig tynnu sylw at y ffordd y byddai'r gwaith hwn yn cynorthwyo i ganoli gwasanaethau meddygol aciwt yn Ysbyty Treforys.</p> <p>Gofynnodd Emma Woollett i Mark Hackett gynnal adolygiad o'r cynlluniau hynny yn y cynllun blynyddol a allai fod â gofynion cyfalaf, er mwyn rhoi sicrwydd bod darpariaethau priodol wedi'u gwneud ar gyfer y rhain ac nad oedd unrhyw oedi pellach i gynlluniau a nodwyd yn y cynllun blynyddol yn sgil anghenion cyfalaf nad oeddent wedi cael eu rhagweld.</p> <p><b>CAM GWEITHREDU – cynnal adolygiad o'r cynlluniau sydd yn y cynllun blynyddol er mwyn rhoi sicrwydd bod gofynion cyfalaf wedi'u nodi a bod darpariaethau yn y cynllun cyfalaf. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd erbyn diwedd Gorffennaf 2021.</b></p> | MH |
| Penderfyniad | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylid <b>nodi</b>'r adroddiad;</li> <li>- Dylid <b>cymeradwyo</b> sefydlu'r uned asesu meddygol ddydd a fydd yn defnyddio Ward Enfys a'r gofod adeiladu presennol sydd wedi'i gydleoli yn Ysbyty Treforys;</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |    |

|               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |           |
|---------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
|               | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylid <b>cymeradwyo</b>'r newidiadau i'r cynllun cyfalaf dewisol i ariannu'r datblygiad pwysig hwn;</li> <li>- Mark Hackett i gynnal adolygiad o'r cynlluniau sydd yn y cynllun blynyddol er mwyn rhoi sicrwydd bod gofynion cyfalaf wedi'u nodi a bod darpariaethau yn y cynllun cyfalaf. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd erbyn diwedd Gorffennaf 2021.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | <b>MH</b> |
| <b>162/21</b> | <b>Y CYNLLUN YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI AR GYFER CYNLLUN BLYNYDDOL 2021-22</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |           |
|               | <p><b>Derbyniwyd</b> adroddiad ar gyfer cymeradwywaeth y Bwrdd, yn nodi'r cynllun ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer cynllun blynyddol 2021-22.</p> <p>Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Joanne Abbott-Davies sylw at y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae'r rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i frandio'n 'Newid ar gyfer y Dyfodol';</li> <li>- Mae'n nodi newidiadau i wasanaethau a gynigiwyd fel rhan o'r cynllun blynyddol, yn ogystal â newidiadau dros dro a wnaed cyn ac yn ystod y pandemig ac y mae'r bwrdd iechyd am eu gwneud yn rhai parhaol;</li> <li>- Byddai'r newidiadau'n gwella gofal brys ac argyfwng yn ogystal ag yn lleihau'r amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio;</li> <li>- Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi codi pryderon y byddai'r newidiadau'n effeithio ar gyfran o'u poblogaethau. Roedd y ddau fwrdd iechyd wedi'u nodi fel ymgynghorwyr yn y cynllun ymgysylltu ac roedd cyfarfodydd yn cael eu trefnu ar gyfer yr wythnos yn dechrau 26 Gorffennaf 2021 i drafod unrhyw weithgareddau ymgysylltu pellach y byddai eu hangen. O ganlyniad, byddai'r cynllun ymgysylltu'n cael ei ddiweddarau;</li> <li>- Byddai proses ymgynghori ffurfiol â staff yn cael ei rhedeg ar yr un adeg â'r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai hyn yn digwydd fesul gwasanaeth er mwyn targedu'n uniongyrchol y rhai yr effeithir arnynt - mae hyn yn unol â'r broses ar gyfer newidiadau sefydliadol. Bydd yr holl staff yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu hefyd;</li> <li>- Byddai adolygiad canol y tymor o'r broses ymgysylltu yn cael ei gynnal i sicrhau na fyddai unrhyw fylchau i fynd i'r afael â nhw. Byddai hyn yn cynnwys y ddau fwrdd iechyd y soniwyd</li> </ul> |           |

|                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |
|---------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|
|                     | <p>amdanynt eisoes, yn ogystal â'r cynghorau iechyd cymuned ar gyfer y tri sefydliad;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Y bwriad oedd y byddai'r ymgysylltu'n dod i ben ar 1 Hydref 2021.</li> </ul> <p>Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:</p> <p>Dywedodd Mwoyo Makuto fod Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe wedi hysbysu'r bwrdd iechyd yn ffurfiol ei fod yn fodlon â'r cyfeiriad strategol, yn amodol ar yr adborth gan gleifion a'r cyhoedd yn ystod y broses ymgysylltu. Codwyd pryderon gan y cynghorau iechyd cymuned a'r byrddau iechyd y soniwyd amdanynt eisoes ac roedd yn dda gweld bod cynlluniau ar waith i drafod y rhain ymhellach.</p> <p>Rhoddodd Martyn Waygood sylwadau i'w hystyried ar gyfer fersiwn derfynol y ddogfen ymgysylltu, o ran y naratif a'r fformat. Nododd hefyd y cafwyd rhywfaint o adborth gan aelodau'r gymuned am anawsterau wrth drefnu prawf gwaed ar yr un diwrnod, ac efallai y byddai'r rhain yn cael eu codi fel rhan o'r broses ymgysylltu.</p> <p>Mewn ymateb i ymholiad gan Mark Child, cadarnhaodd Joanne Abbott-Davies fod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gwblhau ac y byddai ar gael ochr yn ochr â'r dogfennau ymgysylltu.</p> <p>Cofnododd Siân Harrop-Griffiths ei diolch i Joanne Abbott-Davies am ei gwaith yn gyrru'r gwaith ymgysylltu yn ei flaen yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd i'r cynllun blynyddol ym mis Mehefin 2021.</p> |  |
| <b>Penderfyniad</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylid <b>nodi</b>’r adroddiad;</li> <li>- Dylid <b>cymeradwyo</b>’r llinell amser arfaethedig;</li> <li>- Dylid <b>cymeradwyo</b>’r broses arfaethedig ar gyfer ymgysylltu, yn amodol ar unrhyw welliannau yn dilyn sgysiau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys;</li> <li>- Dylid <b>cymeradwyo</b>’r ddogfen a’r crynodeb.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |  |
| <b>163/21</b>       | <b>UNRHYW FATER ARALL</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |  |
|                     | Ni chafwyd unrhyw faterion pellach a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |  |
| <b>164/21</b>       | <b>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |
|                     | Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 29 Gorffennaf 2021.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |  |